# COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD TRWY TEAMS AR DDYDD IAU, 23 MEDI 2021

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, H Hulme, A Jenner, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams a S L Williams

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir James Evans, Stephen Hayes, Arwel Jones, Francesca Jump, a Jeremy Pugh.

## 2. COFNODION

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15fed Gorffennaf 2021, fel cofnod cywir.

## 3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cofnododd y Cynghorydd Sir Peter Lewis ddiddordeb personol a rhagfarnus yn eitem 10 Lwfans Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Nododd y Cadeirydd y byddai manylion ei ymrwymiadau yn cael eu dosbarthu trwy ebost.

Oedodd y Cyngor i gofio Garry Banks, cyn cynghorydd Llanandras a chyn-gadeirydd y Cyngor ac aelod o'r cabinet a fu farw'n ddiweddar.

## 5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Nododd yr Arweinydd y nifer uchel o achosion Covid yn y sir, a'r pwysau sylweddol oedd yn effeithio ar faes gofal cymdeithasol. Nododd fod y Cyngor yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a ChLlLC i dderbyn teuluoedd o Afghanistan ac roedd yn cael hyd i lety iddynt. Nododd yr Arweinydd hefyd fod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru wedi cytuno'r Achos Busnes Portffolio fyddai'n cael ei

gyflwyno i lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Diolchodd I'r staff fu'n gweithio ar y cynnig ar gyfer statws Dinas Diwylliant y DU. Disgwylir penderfyniad ym mis Hydref fyddai'n cadarnhau a oedd y cais wedi cyrraedd y rhestr fer ai peidio. Nododd yr Arweinydd fod gwaith yn parhau ar y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd ac y disgwylir penderfyniad tua diwedd 2021.

| 6. | NEGES BRIFFIO'R PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Nododd y Prif Weithredwr fod nifer yr achosion Covid ar y lefel uchaf erioed ers dechrau'r pandemig. Roedd hanner yr achosion diweddar yn y grwpiau oedran 0 – 10 ac 11 – 19 ac roedd hyn yn effeithio ar ysgolion; roedd Ysgol GG Cradoc wedi gorfod cau ac wedi dychwelyd at ddysgu ar-lein. Ar 23 Awst, roedd y Cyngor wedi dychwelyd at statws parhad busnes oherwydd effaith gronnus 18 mis y pandemig a'r effaith ar wasanaethau, yn benodol Gofal Cymdeithasol, a Phrofi, Olrhain a Diogelu. Roedd staff wedi cael eu hadleoli er mwyn cefnogi'r gwasanaethau hyn, ac roedd mwy o staff yn cael eu recriwtio.

Nododd y Prif Weithredwr fod offer newydd wedi cael ei brynu i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid yn y Siambr, ond bod cymaint o alw ar gyfer yr offer, ni fyddai'n cael ei osod tan y flwyddyn newydd. Byddai Swyddogion yn gwneud bob ymdrech i hwyluso cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer Aelodau. Cyhoeddodd fod y broses o gynllunio'r gyllideb wedi cychwyn, a nododd y byddai'r rownd cyllidebu nesaf yn debygol o fod yn un heriol iawn. Yn olaf, llongyfarchodd Lynette Lovell yn sgil cael ei phenodi fel y Cyfarwyddwr Addysg.

Hysbyswyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Iechyd a Gofal, nad oedd y pwyllgor yn cwrdd am y tro er mwyn lleihau'r pwysau ar swyddogion, ond y byddai'r pwyllgor yn parhau i wneud yr hyn y gallai i gefnogi gofal cymdeithasol heb yr angen ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol.

| 7. | CYFANSODDIAD |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad.

**Adran 4 – Y Cyngor Llawn**

Roedd penderfyniad unfrydol y Cyngor fel a ganlyn:

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Cymeradwyo'r diwygiad i Reol 4.18.28 y Cyfansoddiad (Y Cyngor Llawn) fel yr amlinellir yn Adran 4 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.**<br>**2. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad fel bo angen er mwyn** | **Adolygu a diwygio'r Cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn gweddu i ofynion cyfredol y Cyngor.** |

| | |
|---|---|
| **adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 1 uchod.** | |

**Adran 11 – Swyddogion.**
Gyda 55 pleidlais o blaid, 5 yn erbyn, a 3 yn atal pleidlais:

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **3. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 11 y Cyfansoddiad (Swyddogion) fel yr amlinellir yn Adran 11 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.**<br>**4. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad fel bo angen er mwyn adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 3 uchod.** | **Adolygu a diwygio'r Cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn gweddu i ofynion cyfredol y Cyngor.** |

**Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Adran 9 (Pwyllgorau Rheoleiddiol)**

Roedd penderfyniad unfrydol y Cyngor fel a ganlyn:

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **5. Mae'r Cyngor yn cymeradwyo diwygio aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i 6 Chynghorydd a 3 Aelod Annibynnol o fis Mai 2022.**<br>**6. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad fel bo angen er mwyn adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 5 uchod.**<br>**7. Bod yr Aelodau Lleyg yn eu lle mor agos ag sy'n bosib at ddechrau 2022 (Ionawr) er mwyn sicrhau parhad, ac i ddarparu cyfnod hyfforddi a phontio i'r Pwyllgor newydd allu gweithredu mewn ffordd effeithlon o fis Mai 2022.** | **Diwallu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef bod yn rhaid i draean aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg o fis Mai 2022.** |

**Y Panel Cyllid ac Adran 7 (Rheolau Gweithdrefnau Craffu)**

Gyda 57 pleidlais o blaid, 4 yn erbyn a 2 yn atal pleidlais:

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **8. Cefnogi'r diwygiadau i weithredu a chyfansoddiad y Panel Cyllid mewn dau gam fel yr amlinellir ym Mharagraffau 2.4.5 a 2.4.6 uchod.** | **Adolygu a diwygio'r Cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn gweddu i ofynion cyfredol y Cyngor.** |

| | |
|---|---|
| **9. Cymeradwyo a gweithredu ar unwaith Cylch Gorchwyl diwygiedig y Panel Cyllid fel yr amlinellir yn Rheolau 7.37 a 7.38.**<br>**10. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad fel bo angen er mwyn adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhellion 8 & 9 uchod.** | |

| 8. | PENODI AELODAU ANNIBYNNOL (LLEYG) AR Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhelliad y Panel Penodiadau mewn perthynas â phenodi aelod annibynnol (lleyg) i'r Pwyllgor Safonau. Cynigiodd y Cynghorydd Sir Tim Van-Rees ac eiliodd y Cynghorydd Sir Gareth Morgan a gyda 56 pleidlais o blaid, 8 yn erbyn ac 1 yn atal pleidlais:

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Nodi cynnwys yr adroddiad ac argymhelliad y Panel, a phenodi Mr Nigel Steward fel yr Aelod Annibynnol (Lleyg) am gyfnod o 6 mlynedd o 23 Medi 2021, a phenodi Mr Russell Stafford-Tolley fel Aelod Annibynnol (Lleyg) am gyfnod o 6 mlynedd o 3 Mawrth 2022.** | **Cydymffurfio â gofynion o ran aelodau Annibynnol (Lleyg) y Pwyllgor Safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).** |

**Estyniad i Gyfnod Swydd yr Aelod Annibynnol (Lleyg) ar y Pwyllgor Safonau**

Argymhellwyd hefyd y dylid ail-benodi Mr Stephan Hays am gyfnod arall o bedair blynedd, adeg y daw ei gyfnod presennol yn y swydd i ben ar 25 Ionawr. Cynigiodd y Cynghorydd Sir Tim Van-Rees ac eiliodd y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones a thrwy benderfyniad unfrydol:

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Y byddai'r Cyngor yn ail-benodi Mr Stephan Hays fel Aelod Annibynnol (Lleyg) o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd, o 26 Ionawr 2022, fydd yn dod i ben ar 25 Ionawr 2026.** | **Llenwi'r lle gwag ar y Pwyllgor Safonau ar gyfer Aelod Annibynnol.** |

| 9. | CYNGOR CYMUNED LLANDDEW – DIFFYG CWORWM |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhelliad oedd yn cynnig penodi cynghorwyr cymuned dros dro i weithredu nes etholir digon o gynghorwyr i lenwi'r swyddi i sicrhau fod gan Gyngor Cymuned Llanddew gworwm eto. Roedd y Cynghorwyr Sir y wardiau etholwyr cyfagos, sef Felinfach, Sant Ioan a'r Santes Fair wedi

cytuno gweithredu fel aelodau dros dro. Ni dderbyniodd y Cadeirydd cynnig i ychwanegu pedwerydd aelod o ward Ysgir.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir RH Williams ac eiliodd y Cynghorydd Sir S McNicholas a gyda 52 pleidlais o blaid, 8 yn erbyn a 3 yn atal pleidlais:

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Gweithredu Gorchymyn Cyngor Cymuned Llanddew (Dileu Anhawster) 2021 fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad.** | **Sicrhau cyfansoddiad priodol ar gyfer Cyngor Cymuned Llanddew i alluogi'r Cyngor Cymuned dan sylw i weithredu.** |

## 10. LWFANSAU CADEIRYDD Y PWYLLGOR PENSIYNAU A BUDDSODDIADAU

Roedd y Cynghorydd Sir P Lewis wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod tra bo'r eitem yn cael ei hystyried.

Bu'r Cyngor yn ystyried cais y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau i wneud taliad sy'n cyfateb i Lwfans Uwch Gyfrifoldeb i Gadeirydd y Pwyllgor fyddai'n cael ei ailgodi gan y Gronfa Pensiwn, i adlewyrchu cyfrifoldebau cadeirydd y Pwyllgor hwnnw a'r gofynion cynyddol sy'n gysylltiedig â'r rôl.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir RH Williams i atgyfeirio'r argymhelliad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Collwyd y gwelliant gyda 26 o blaid a 37 yn erbyn.

Cynigiwyd argymhelliad yr adroddiad gan y Cynghorydd Sir T Van-Rees a eiliwyd gan H Williams, a gyda 42 pleidlais o blaid, ac 19 yn erbyn

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau a chytuno y dylid talu lwfans uwch gyfrifoldeb i gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau gyda'r gost ychwanegol yn cael ei ailgodi i'r Gronfa Pensiwn, i adlewyrchu cyfrifoldebau Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau a'r gofynion cynyddol sy'n gysylltiedig â'r rôl.**

Torrodd y Cyngor am 13.23 a dychwelodd am 14.00.

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, H Hulme, A Jenner, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan,

JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams a S L Williams

| 11. | YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU |
|---|---|

Ymunodd Jason Killens, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Benjamin Collins, Rheolwr Gweithrediadau Ambiwlans Powys ac Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltiad â'r cyfarfod i roi diweddariad ar y pwysau sy'n wynebu'r gwasanaeth ac ar y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ymateb i'r rhain.

Rhoddodd Mr Collins ddiweddariad i aelodau ar y sefyllfa ym Mhowys o ran adrodd cynnydd yn nifer y galwadau i'r gwasanaeth bob mis dros y 24 mis diwethaf, gyda bron dwy ran o dair ohonynt yn alwadau categori coch neu ambr. Nododd, yn dilyn adolygiadau recriwtio a rhestr ddyletswyddau lleol, roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y prif adegau pan fyddai disgwyl y nifer uchaf o alwadau. Cadarnhaodd na fyddai unrhyw orsafoedd ambiwlans yn cau. Cadarnhawyd hefyd bod rhai anawsterau lleol yn bodoli o ran recriwtio a chadw staff, a bod y gwasanaeth yn ystyried targedu ymgyrch recriwtio lleol. Nododd fod ymatebwyr cyntaf y gwasanaeth tân wedi cael eu cyflwyno eto i helpu sicrhau mwy o wydnwch, a bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wrthi'n datblygu model gofal iechyd gwledig. Roedd y gwasanaeth hefyd yn awyddus i gael gweithwyr cymdeithasol mewn ystafelloedd rheoli ambiwlansys i helpu rheoli galwadau, ac roeddynt yn croesawu'r gwahoddiad i ymuno â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol lle gellir ystyried yr opsiynau hyn.

| 12. | RHYBUDDION O GYNNIG |
|---|---|

12.1. **Cynigion i'w cyflwyno yn y dyfodol i'r Cyngor**

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol, a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts:

"Mae'r cyngor hwn yn penderfynu:

Y dylid cyflwyno unrhyw rybuddion o gynnig, neu unrhyw welliant i gynnig, sy'n dod gerbron y cyngor hwn i'w hystyried, ar y cyd â dadansoddiad o gostau goblygiadau o safbwynt adnoddau ac ariannol fyddai'n deillio o'r cynnig neu'r gwelliant i gynnig os caiff ei gymeradwyo, ar y cyngor hwn."

Dadl y cynigydd a'r eilydd oedd, wrth ddod â chynnig gerbron y cyngor, dylai'r cyngor fod yn ymwybodol o'r goblygiadau o ran costau. Roedd nifer o aelodau'n dadlau y byddai'r cynnig yn mygu dadleuon. Cyngor y Pennaeth Cyllid, pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, oedd y byddai hi a'i swyddogion yn hyderus ynghylch gweithio gydag aelodau ar unrhyw rybuddion o gynnig ar gostau, ond y byddai angen eu cynnwys yn gynnar yn y broses.

Cynigiwyd gwelliant gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir David Selby yn gofyn i'r Cyngor diddymu:

*"Y dylid cyflwyno unrhyw rybuddion o gynnig, neu unrhyw welliant i gynnig, sy'n dod gerbron y cyngor hwn i'w hystyried, ar y cyd â dadansoddiad o gostau goblygiadau o safbwynt adnoddau ac ariannol fyddai'n deillio o'r cynnig neu'r gwelliant i gynnig os caiff ei gymeradwyo, ar y cyngor hwn".*

i'w ddisodli gyda'r canlynol: mae'r Cyngor yn penderfynu:

"Gofyn i Ddeiliad y Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol gyflwyno cynigion gyda chostau i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i Aelodau i hwyluso darparu costau priodol ar gyfer Cynigion arfaethedig y mae Aelodau'n dymuno eu rhoi gerbron y Cyngor Llawn i'w hystyried".

Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant, a gollwyd gyda 25 o blaid, 32 yn erbyn ac 1 yn atal pleidlais. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a gyda 31 o blaid, 24 yn erbyn a 2 yn atal pleidlais:

**PENDERFYNWYD bod yn rhaid i unrhyw rybudd o gynnig, neu unrhyw welliant i gynnig, a gyflwynir i'r cyngor hwn i'w ystyried, gynnwys dadansoddiad o ran goblygiadau'r costau adnoddau ac ariannol sy'n gysylltiedig â'r cynnig dan sylw neu'r gwelliant i gynnig, os caiff ei gymeradwyo, ar y cyngor hwn.**

Gadawodd y Cynghorwyr Sir A Jenner a J Williams y cyfarfod am 15.48.

## 12.2. Cyhoeddi Argyfwng Ecolegol a Chefnogi'r Bil Brys ar yr Hinsawdd ac Ecoleg

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton:

"Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:
1. Cyhoeddi argyfwng ecolegol er mwyn dangos ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu amgylchedd naturiol, bioamrywiaeth a bywyd gwyllt Powys;
2. Datgan ei gefnogaeth ar gyfer y Bil Brys ar yr Hinsawdd ac Ecoleg (CEE);
3. Hysbysu'r cyfryngau lleol am y penderfyniad hwn, gan gynnwys rhannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol;
4. Ysgrifennu at ein Haelodau Seneddol lleol yn gofyn iddyn nhw gefnogi'r Bil CEE pan gaiff ei drafod yn y Senedd; ac
5. Ysgrifennu at Gynghrair Bil CEE, trefnwyr yr ymgyrch dros y Bil i ddatgan ein cefnogaeth (campaign@ceebill.uk)."

Roedd y cynigydd a'r eilydd yn annog y Cyngor i gyhoeddi ei gefnogaeth ar gyfer y Bil Brys ar yr Hinsawdd ac Ecoleg i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur. Roedd nifer o aelodau wedi mynegi pryderon ynghylch effaith y Bil ar ffermio ac economi ehangach y sir.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, ond fe'i gollwyd gyda 24 o blaid a 31 yn erbyn.

12.3. **Cefnogi Trwydded Tân Gwyllt Syml**

Bu'r Cyngor yn trafod cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir J Charlton ac a gefnogwyd gan y Cynghorydd Sir J Berriman:

"Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl fregus - gan gynnwys y camau diogelu y gellir eu cymryd i liniaru risg o ran canlyniadau anfwriadol tân gwyllt cyfreithiol.
2. Cefnogi'r RSPCA yn y gwaith sy'n cael ei wneud i newid deddfwriaeth mewn perthynas ag arddangosfeydd tân gwyllt i alluogi a sicrhau y caiff unrhyw arddangosfa gyhoeddus o dân gwyllt ei hysbysebu ymlaen llaw, gyda gwybodaeth briodol mewn perthynas â maint yr arddangosfa, sy'n caniatáu i breswylwyr gymryd camau priodol ar gyfer pobl ac anifeiliaid anwes.
3. Annog cwmnïau sy'n cyflenwi tân gwyllt lleol, trwy godi ymwybyddiaeth, i wahanu tân gwyllt 'tawelach' oddi wrth y rhai swnllyd er mwyn i bobl gael dewis pa arddangosfa sy'n well ganddynt wrth ystyried diogelwch anifeiliaid a phobl."

Nododd y Cynghorydd Charlton taw diben y cynnig oedd cefnogi gwaith sefydliadau eraill sy'n ymgyrchu trwy godi ymwybyddiaeth. Roedd hi wedi trafod hyn gyda swyddogion oedd yn cytuno na fyddai'n arwain at gostau ychwanegol. Cadarnhaodd nad oedd yn cynnig system trwyddedu. Nododd yr Arweinydd a Deiliad y Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a Gwasanaethau Rheoleiddiol bod y Safonau Masnach ac adran Iechyd yr Amgylchedd eisoes yn weithgar yn y maes yma.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a gollwyd gyda 22 o blaid a 31 yn erbyn, gydag 1 yn atal pleidlais.

12.4. **Credyd Cynhwysol: Canslo'r Toriad**

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Liz Rijnenberg ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance:

"Mae'r cyngor hwn yn penderfynu:

1. Ysgrifennu at y Canghellor, Yr Ysgrifennydd Gwaith a Phensiynau a'r Prif Weinidog i wrthwynebu'r toriad arfaethedig i Gredyd Cynhwysol;
2. Galw ar Fay Jones AS a Craig Williams AS i sefyll dros deuluoedd ym Mhowys a gwrthwynebu'r toriad i Gredyd Cynhwysol; a
3. Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau cyngor i gefnogi trigolion sy'n cael eu heffeithio gan y toriad i Gredyd Cynhwysol."

Dadl y cynigydd a'r eilydd oedd nad dyma'r amser iawn i dynnu nôl y cynnydd mewn Credyd Cynhwysol, gan nodi y byddai mwy nag wyth mil o deuluoedd Powys yn colli £1,000 y flwyddyn ac y byddai economi Powys yn colli £8 miliwn ac y byddai'n arwain at fwy o bwysau ar y gwasanaethau cymdeithasol.

Cynigiwyd gwelliant gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh i ddileu'r tri argymhelliad yn y cynnig a'u disodli gyda: "Mae'r cyngor hwn yn penderfynu gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau partner i gefnogi trigolion sy'n cael eu heffeithio yn sgil dileu'r cynnydd dros dro mewn Credyd Cynhwysol."

Dadl cynigydd y gwelliant oedd y byddai'n canolbwyntio ar yr hyn y gall y Cyngor ei wneud.

Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant, a gyda 26 pleidlais o blaid, a 23 yn erbyn, gyda 3 yn atal pleidlais, enillodd y gwelliant. Wedyn rhoddwyd y cynnig terfynol gerbron y cyfarfod, a gyda 35 pleidlais o blaid, 11 yn erbyn, ac 8 yn atal pleidlais:

**PENDERFYNWYD gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau cyngor i gefnogi trigolion sy'n cael eu heffeithio yn sgil dileu'r cynnydd dros dro mewn Credyd Cynhwysol.**

Gadawodd y Cynghorydd Sir MJ Jones y cyfarfod am 17.08. Gadawodd y Cynghorydd Sir G Breeze y cyfarfod am 17.10.

12.5. **Ehangu argaeledd ac ymwybyddiaeth am Ddiffibrilwyr ym Mhowys**

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir P Roberts ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir G Ratcliffe

"Mae'r Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried y canlynol :

- Llunio rhestr, ac yn sgil hynny, cyhoeddi a diweddaru manylion yr holl ddiffibrilwyr sy'n cael eu cynnal a'u cadw ar eiddo'r cyngor gyda gwybodaeth o ran sut i gael mynediad atynt.
- Cynnal adolygiad o, a lle bo'n briodol, cynyddu hygyrchedd y cyhoedd at ddiffibrilwyr mewn adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor gan gynnwys parciau cyhoeddus, canolfannau cymunedol, ysgolion, cyfleusterau hamdden, a lleoliadau uchel eu defnydd.
- Cadeirydd y Cyngor i anfon llythyr ar ran y Cyngor at Ysgrifenyddion Iechyd ac Addysg y Senedd i'w hannog i gefnogi symudiadau i ymestyn argaeledd Cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig [AED] a hyrwyddo eu defnyddio yn enwedig trwy hyfforddiant o fewn y gyfundrefn addysg."

Dadl y cynigydd a'r eilydd oedd y gall y mesur yma wneud gwahaniaeth sylweddol. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a gyda 29 o blaid, ac 20 yn erbyn

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Cabinet ystyried y canlynol:**

- **Llunio rhestr, ac yn sgil hynny, cyhoeddi a diweddaru manylion yr holl ddiffibrilwyr sy'n cael eu cynnal a'u cadw ar**

**eiddo'r cyngor gyda gwybodaeth o ran sut i gael mynediad atynt.**

- **Cynnal adolygiad o, a lle bo'n briodol, cynyddu hygyrchedd i'r cyhoedd at ddiffibrilwyr mewn adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor gan gynnwys parciau cyhoeddus, canolfannau cymunedol, ysgolion, cyfleusterau hamdden, a lleoliadau uchel eu defnydd.**
- **Cadeirydd y Cyngor i anfon llythyr ar ran y Cyngor at Ysgrifenyddion Iechyd ac Addysg y Senedd i'w hannog i gefnogi symudiadau i ymestyn argaeledd Cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig [AED] a hyrwyddo eu defnyddio yn enwedig trwy hyfforddiant o fewn y gyfundrefn addysg."**

Gadawodd y Cynghorydd Sir C Mills y cyfarfod am 17.24.

| 13. | CWESTIYNAU'N UNOL A'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

13.1. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Deiliad y Portffolio ar gyfer Tai, Cynllunio ac Adfywio Economaidd a Deiliad y Portffolio ar gyfer Addysg ac Eiddo gan y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees**

Ar ôl elwa o gymorth cyfieithwyr ac unigolion lleol eraill yn ystod fy nghyfnod yn gwasanaethu tramor, buaswn yn llongyfarch y Cabinet ar eu penderfyniad i gynnig llety i chwe theulu o ffoaduriaid o Afghanistan.
Wrth ystyried cyflwr y wlad anhapus honno, mae'n debyg y bydd gofyn am lety ar gyfer nifer sylweddol uwch o ffoaduriaid, ac yn wir, darpariaeth i addysgu eu plant. Pa gynlluniau wrth gefn sydd gan y Cabinet yn achos cais gan Lywodraeth ei Mawrhydi / Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ychwanegol?

Ymateb
Mae Cyngor Sir Powys wedi addo rhoi cartrefi i chwe theulu fel rhan o'r Rhaglen genedlaethol i Adleoli a Chynorthwyo ffoaduriaid o Afghanistan (ARAP). Yn sgil trafodaethau gyda chymdeithasau tai, mae'r cyngor wedi llwyddo i gynyddu'r cynnig blaenorol a wnaethpwyd.
Mae amrywiaeth a chymhlethdod anghenion y teuluoedd Afghan, ar y cyd â natur wledig Powys, yn golygu nifer o heriau o safbwynt y Cyngor o ran tyfu'r ddarpariaeth. Mae angen inni sicrhau y caiff yr anghenion tai a chymorth eu diwallu'n llawn er mwyn i'r teuluoedd hyn setlo'n gyflym a ffynnu yn eu cymunedau newydd wrth symud i Bowys. Er mwyn bodloni'r heriau hyn, bellach mae gwasanaethau'n gallu defnyddio profiad y Prosiect llwyddiannus i Adleoli Unigolion Bregus o Syria, lle mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau fod cymorth cofleidiol hygyrch ar gael pan fo angen.
Mae teuluoedd wedi'u dadleoli'n ddiweddar o Afghanistan yn rhan o angen ehangach a chynyddol o ran ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n chwilio am lety. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Sir Powys hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru a Clearsprings, y sefydliad a benodwyd i gael hyd i gartrefi ar gyfer ceiswyr lloches a llety addas diogel o fewn y sector rhentu preifat.
Mae gweithdrefnau derbyn disgyblion i ysgolion wedi eu paratoi i dderbyn disgyblion teuluoedd ffoaduriaid trwy broses derbyniadau arferol yr Awdurdod Lleol. Mae'r Tîm Derbyniadau'n ymwybodol y bydd teuluoedd o ffoaduriaid yn

symud i Bowys, ac maent yn datblygu'r cyswllt a sefydlwyd eisoes gyda'r tîm Grwpiau Bregus i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu am unrhyw geisiadau ar gyfer derbyniadau ysgolion a dderbynnir mewn perthynas â theuluoedd ffoaduriaid o Afghanistan, yn yr un ffordd ag ar gyfer teuluoedd ffoaduriaid o Syria. Mae llefydd ysgol ar gael a bydd y Tîm Derbyniadau'n gallu rhoi gwybodaeth am ysgolion yn yr ardal lle bydd y teuluoedd yn symud.

Doedd dim cwestiwn atodol.

13.2. **Cwestiwn i ddeiliad y Portffolio ar gyfer Pobl Ifanc a Diwylliant gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt**

A wnaiff Deiliad y Portffolio ddarparu ffigurau - gwirioneddol ac fel canran - ar gyfer cyfanswm y lleihad blynyddol yng nghyllid grant Cyngor Sir Powys i sefydliadau ym maes celfyddydau a diwylliant oedd yng Nghyllideb y Cyngor bob blwyddyn o 2017/18 hyd at 2021/22?

Ymateb
Cyllideb Gwasanaethau Celfyddydol Cyngor Sir Powys 2017 - 2022

| | 2020-21 - 2021-22 | | 2019-20 - 2020-21 | | 2018-19 - 2019-20 | | 2017-18 - 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grant Celfyddydau a Diwylliannol | Cyllideb | % | Cyllideb | % | Cyllideb | % | Cyllideb | % |
| Lleihad | -£59,480.00 | -33.84% | -£58,060.00 | -24.83% | -£43,550.00 | -15.70% | -£9,810.00 | -3.42% |

Bu gostyngiad yng nghyllideb y Gwasanaeth Celfyddydau bob blwyddyn yn ystod y cyfnod dan sylw, 2017/18 hyd at 2021/22. Dros y cyfnod hwnnw, mae'r gostyngiadau'n cyfateb i £170,900. Cyllideb gyfredol y Gwasanaeth Celfyddydau yw £116,280.
Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau wedi ymgynghori ac wedi cyfathrebu gyda sefydliadau a effeithiwyd trwy gydol y cyfnod hwn, gan ddarparu gwybodaeth, adnoddau a chyngor ar ehangu portffolios incwm gan gynnwys cyfleoedd i greu incwm, datblygu busnesau ac ailfodelu. Mae'r cymorth yma i ddarparwyr celfyddydau cymunedol a phartneriaid y diwydiant creadigol yn parhau ac yn datblygu, yn enwedig ym maes mynediad at ffynonellau cyllid allanol, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r sawl sy'n gysylltiedig â chynllunio buddsoddiad cenedlaethol strategol.

Wrth ymateb i gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Gibson-Watt ynghylch sut y byddai'n lliniaru'r neges mewn perthynas â lleihad yn lefel cymorth y Cyngor ar gyfer y Celfyddydau a'r neges y byddai hyn yn ei chyfleu i'r aseswyr sy'n adolygu'r cais ar gyfer statws Dinas Diwylliant, nododd Deiliaid y Portffolio y byddai gofyn i'r gwasanaeth celfyddydau adolygu ei egwyddorion comisiynu ac ystyried ffyrdd newydd o weithio gyda sefydliadau wrth ystyried y sefyllfa sydd ohoni.

13.3. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio ar gyfer Tai, Cynllunio ac Adfywio Economaidd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

A wnaiff Deiliad y Portffolio ar gyfer Tai roi diweddariad i'r Cyngor ar y cynigion diweddaraf ar gyfer ad-drefnu Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Powys, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd?
Ar adeg pwysau sylweddol ar dai, a gan ystyried y pwyslais o'r newydd gan Weinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd, Julie James AS, ar bwysigrwydd adfer Eiddo Gwag ar adeg priodol amserol, a wnaiff Deiliad y Portffolio roi sicrwydd i Aelodau na chaiff y Tîm Tai Sector Preifat arobryn, ei ddiddymu neu ei chwalu mewn unrhyw ffordd?

Ymateb
Mae'r Gwasanaethau Tai'n cael eu haildrefnu gyda'r nod o wella gallu'r Cyngor i ymateb i farchnad dai sy'n newid lle mae angen i'r cyflenwad a'r galw weddu i'w gilydd yn well, ac i ddisgwyliadau a dyheadau aelwydydd i gael mwy o gyfleoedd i fwynhau cartref diogel, sy'n cael ei gynnal a'i chadw mewn cyflwr da.
Cytunwyd cynnig ar gyfer agwedd newydd tuag at y Gwasanaethau Tai, er mwyn bodloni'r deilliannau hyn, gan y Cabinet yn yr Haf. Rhannwyd yr Achos Busnes, oedd yn olrhain cynnig ar gyfer dyfodol y Gwasanaethau Tai gyda chydweithwyr ar 3ydd Awst. Mae'r cynnig yn cynnwys pwyslais cryf ar atebolrwydd lleol, agwedd ddall o safbwynt deiliadaeth i wella'r ffordd y mae'r farchnad dai'n darparu ac yn gwella cartrefi, a ffocws clir ar wasanaethau uchel eu hansawdd.
Daeth cyfnod ymgynghori o chwe wythnos ar y cynnig i ben ar 10fed Medi. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd pob un o'r gweithwyr yn gallu cael sesiwn unigol gydag Arweinydd Proffesiynol y Gwasanaethau Tai a chynhaliwyd cyfarfodydd tîm ynghyd â thrafodaethau grŵp. Gan fod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben bellach, mae Achos Busnes terfynol yn cael ei baratoi, sy'n ystyried y cyfraniadau a'r adborth a dderbyniwyd ers 3ydd Awst. Ni fedrwn gynnig sylw pellach ar y cynigion ar hyn o bryd, tra bo'r Achos Busnes terfynol yn cael ei gwblhau.
Gyda'r gwaith dal ar y gweill o safbwynt y broses Rheoli Newid, nid yw'n bosib olrhain yr effaith ar y tîm Tai Sector Preifat ar hyn o bryd. Er hynny, mae gwaith y tîm dal yn flaenoriaeth, ac os bydd unrhyw newidiadau, bydd hynny er mwyn meithrin capasiti yn y meysydd allweddol hyn.
Y bwriad yw cyflwyno'r gwasanaeth ar ei newydd wedd ar 1af Ionawr, 2022.

Doedd dim cwestiwn atodol.

13.4. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Jon Williams**

Fel cynghorwyr, rydym yn cael ein hysbysu o hyd bod staff yn cael eu secondio i feysydd gwasanaeth eraill oherwydd Covid. Oherwydd y llwyth gwaith ychwanegol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn gorfod delio ag ef, a'r pwysau enfawr sy'n eu hwynebu'n ddyddiol, a wnaiff Deiliad y Portffolio fy hysbysu faint o staff sydd wedi cael eu secondio i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, faint o staff o'r maes gwasanaeth hwn sydd ar ffyrlo, a pha gamau mae'r cyngor yn eu cymryd i sicrhau llesiant staff y maes gwasanaeth hwn.

Ymateb
<u>Adleoli Staff</u>
Ers mis Mawrth 2020, mae 54 aelod o staff wedi cael eu hadleoli i Wasanaethau Oedolion a Chomisiynu o feysydd gwasanaeth eraill. Llwyddodd un aelod o staff

a adleolwyd o faes gwasanaeth arall gyda chais ar gyfer swydd barhaol, lle cafodd ei symud adeg adleoli yn wreiddiol. Mae staff a adleolwyd wedi chwarae rhan hollbwysig o ran cynorthwyo'r Gwasanaethau Oedolion i gyflenwi gwasanaethau critigol i fusnes yn ystod parhad y busnes, ac mae'r gwasanaeth yn yr un sefyllfa ers mis Mawrth 2020.

Mae nifer y bobl a adleolwyd i'r Gwasanaethau Oedolion wedi newid yn ystod cyfnod y pandemig, yn enwedig pan ddaeth meysydd eraill y Cyngor allan o gyflwr parhad busnes er mwyn adfer cyflenwi gwasanaethau eto.

Ar 9fed Medi 2021, mae 5 aelod o staff yn cael eu hadleoli i Wasanaethau Oedolion a Chomisiynu o feysydd gwasanaeth eraill (ac mae 1 o'r rhain fod i gychwyn swydd barhaol yn y dyfodol agos). Mae aelod arall o staff sy'n aros i gael ei adleoli hefyd.

Mae dau o weithwyr ar secondiadau ffurfiol gyda'r Gwasanaethau Oedolion o feysydd gwasanaeth eraill; cawsant eu hadleoli o feysydd gwasanaeth eraill cyn hynny.

Dylid nodi fod y Gwasanaethau Oedolion hefyd wedi adleoli rhai o'i staff i sicrhau y gallwn gynnal ein gweithgareddau sy'n gritigol i genhadaeth y cyngor. Ar 25ain Awst 2021, roedd 35 o'n staff, y mae eu prif rolau mewn gwasanaethau cymorth dydd wedi cael eu hadleoli i rolau estyn allan a gofal cartref.

Eto ar 25ain Awst 2021, roedd 3 aelod o staff ychwanegol o'r gwasanaethau cymorth dydd ar hyn o bryd yn cefnogi parhad gofal yn ein cartrefi gofal.

Yn ystod y pandemig, bu achos inni gefnogi'r cartrefi gofal a gomisiynir wrth iddynt wynebu problemau staffio aciwt, trwy ddarparu adnoddau staffio brys. Mae ymateb felly ond yn bosib trwy barodrwydd ein staff i gefnogi; nid yw llawer ohonynt wedi gweithio mewn cartref gofal o'r blaen. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r staff yma am eu parodrwydd a'u gallu i gamu i'r adwy ar rybudd byr iawn i gefnogi ein darparwyr. Ar hyn o bryd mae gennym 13 aelod o staff yn y Gwasanaethau Oedolion sydd wedi ymrwymo i gefnogi cartrefi gofal ar fyr rybudd (yn y gorffennol, mae hyn wedi golygu llai na 24 awr o rybudd).

Ffyrlo

Mewn perthynas â'r cynllun ffyrlo, ar hyn o bryd mae gennym 14 aelod o staff ar ffyrlo llawn, a 47 ar ffyrlo hyblyg. Daw'r trefniadau ffyrlo i ben ar 30ain Medi 2021.

Camau a gymerwyd i sicrhau llesiant staff

Ein staff yw ein hased mwyaf, a phrofwyd eu gwydnwch a'u penderfyniad hyd yr eithaf yn ystod y pandemig. Rydym yn llawn barchedig ofn o'u hymdrechion parhaus i gefnogi llesiant a diogelwch ein preswylwyr ac rydym yn awyddus i wneud popeth y gallwn i sicrhau ei fod mor rhwydd â phosib i gyflawni'r gwaith mwyaf heriol.

Rydym wedi sefydlu ystod o fesurau llesiant er mwyn cefnogi ein staff. Ymhlith y rhain mae ein protocol llesiant sy'n pwysleisio pwysigrwydd amser neilltuedig ar gyfer sesiynau dal fyny, cinio, sicrhau fod gwaith yn aros o fewn oriau gwaith, a chysylltiadau at gymorth ym maes iechyd a llesiant.

Mae gan bob un o'n gweithwyr fynediad at Care First adnodd gwych a chyfrinachol ar gyfer llesiant gweithwyr sy'n cynnig cyngor a chymorth diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn trwy ffonio'r rhif rhadffôn - 0800 174319.

Hefyd rydym wedi cyflwyno ystod o weithgareddau llesiant megis Yoga, Canu, Dosbarthiadau ymarfer byr ar gyfer staff i'w mynychu fel a phan fo angen, sy'n cael buddion corfforol yn ogystal â rhai iechyd meddwl.

O safbwynt Gwasanaethau Oedolion, gwyddom fod ein staff yn fwy tebygol o deimlo'n bositif am eu swyddi os bydd rhywun yn gwrando arnynt ac yn

cyfathrebu gyda nhw, a theimlo fod ganddynt gyfraniad go iawn i'w chwarae wrth gyd-ddylunio ein gwasanaethau. O fewn y Gwasanaethau Oedolion, rydym wedi cadw ein hymrwymiad i gynnal grwpiau rheolaidd gyda chynrychiolwyr gweithwyr ac mae Pennaeth y Gwasanaeth wedi hwyluso egwyl paned rhithiol ac wedi trefnu sesiynau dal fyny rhithiol gyda staff trwy gydol y pandemig. Yn gynharach yn y flwyddyn, ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Plant, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau Ffau'r Ddraig gyda gwahoddiad i staff wneud cynnig ar gyfer cyllid i gefnogi prosiectau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Llwyddwyd i gyllido nifer o fentrau cyffrous megis hyfforddiant ym maes ymyriadau syrthio, cymorth ychwanegol ym maes nam gweledol, a phartneriaethau aml-genhedlaeth rhwng ysgolion a chartrefi gofal.

13.5. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Mae gan Fargen Twf Canolbarth Cymru botensial i fod yn sbardun enfawr ar gyfer economi Canolbarth Cymru yn ystod y blynyddoedd heriol sydd o'n blaenau ac mae angen cydnabod ymdrechion yr Aelodau a Swyddogion sydd wedi cydweithio gydag actorion Llywodraeth y Du a Llywodraeth Cymru.
Fodd bynnag, mae profiad Cymru o fentrau Bargenni Twf dros flynyddoedd diweddar, yn benodol yn Rhanbarth Bae Abertawe, wedi dangos pa mor hollbwysig mae'r broses craffu o ran profi cadernid a hyfywedd strategaethau penodol.
Gan ystyried hyn, pa ystyriaeth y mae'r Arweinydd wedi ei gwneud mewn perthynas â hyrwyddo cyd-graffu gan Aelodau, o Gynghorau Sir Ceredigion a Phowys, er mwyn tawelu meddwl a sicrhau tryloywder, ac o ganlyniad mwy o gefnogaeth gan y cyhoedd ar lefel ehangach?

Ymateb
Diolch am eich cwestiwn mewn perthynas â chraffu ar Fargen Twf Canolbarth Cymru.
Gallaf gadarnhau fod trefniadau mewn bodolaeth ar gyfer cydbwyllgor craffu sy'n cynnwys 7 Aelod ar ran pob Cyngor. Arweinyddion Grŵp ar sail cydbwysedd gwleidyddol, sydd wedi enwebu'r Aelodau o bob awdurdod a chytunodd cyn Pwyllgor Cyd-gydlynu'r Cyngor y dylai ein haelodau ni ar y Cydbwyllgor Craffu gynnwys 3 o'r Pwyllgor Craffu ar yr Economi, Trigolion a Chymunedau, 1 o'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Sgiliau, 1 o'r Pwyllgor Craffu ar Iechyd a Gofal, 1 o'r Panel Cyllid, gyda'r 7fed Aelod nad yw'n aelod o unrhyw Bwyllgor Craffu. Mae trefniadau mewn lle i gynnal cyfarfodydd o'r Cydbwyllgor Craffu ar 11$^{eg}$ ac 22$^{ain}$ Hydref 2021 a 29$^{ain}$ Tachwedd 2021.

Wrth ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Powell ynghylch sut y byddai buddion busnes yn cael eu cynrychioli, nododd yr Arweinydd y byddai grŵp newydd yn cael ei sefydlu yn lle'r Grŵp Strategaeth Economaidd, a'i gobaith oedd y byddai rhai o aelodau'r GSE yn rhan o'r grŵp newydd.

13.6. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

Cynnydd y gronfa Adfer yn sgil Covid – cynllun atgyweirio tyllau yn y ffordd.
Gan ein bod bellach rhyw hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, ac felly hyd gylch y gronfa adfer yn sgil Covid, a wnaiff Deiliad y Portffolio roi dadansoddiad

inni fesul wardiau'r cyngor o gost a chwmpas y cynlluniau atgyweirio tyllau yn y ffordd a gynhaliwyd hyd yn hyn yn sgil y buddsoddiad hwn, ynghyd â dadansoddiad tebyg o'r gwaith sydd ar y gweill ar gyfer gweddill y flwyddyn?

Ymateb
Diolch am eich cwestiwn mewn perthynas â chronfa adfer yn sgil Covid ar gyfer gwaith ar y priffyrdd. Gallaf gadarnhau y gwariwyd y symiau canlynol ar draws y Sir:
Gogledd - £140,000
Canol - £80,000
De – £80,000

Wrth ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Roberts nododd Deiliad y Portffolio nad oedd yn bosib rhoi dadansoddiad fesul wardiau'r Cyngor oherwydd mae'r gwaith yn cael ei gyflawni gan y tri depo ar sail blaenoriaeth ac nid fesul ward.

**Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)**